

Neidr neu Lindys Ddail wedi ei Rhifo

Gellir gwneud yr weithgaredd yma i ymarfer crefft bwysig, sef gwaith coed. Rydym wedi cyflwyno gweithdai'n ddiweddar sy'n hyrwyddo gwaith coed fel ffordd dda o ddatblygu amrywiaeth o sgiliau. Yn y fideo yma rydym yn canolbwyntio ar ddatblygiad mathemategol. Mae'n ddiddorol gweld cymaint o amser y mae plant yn hapus i'w dreulio yn gwneud gwaith coed. Maent wrth eu bodd yn morthwyllo hoelion i bren, a gall hyn fod yn therapiwtig iawn i oedolion hefyd! Mae'n syndod imi am ba hyd y mae'n cynnal eu diddordeb. Yn aml mae plant nad ydynt yn dangos brwdfrydedd gyda thasgau eraill yn cymryd at waith coed ac yn aros ar dasg.

Gofynnwch i'r plant gasglu dail. Penderfynwch gyda nhw faint ddail, pa mor fawr neu fach, pa siâp a pha liw. Bydd y gwaith casglu ynddo'i hun yn gyfle ardderchog i arfer a datblygu iaith fathemategol.

Bydd y plant angen arwyneb hir i forthwyllo arno. Hoelion penfawr (clout nails) yw'r gorau ar gyfer y dasg hon. Anogwch y plant i ddioli'r dail y dymunant eu defnyddio ar y neidr ddail / lindys. Sut y byddan nhw yn eu trefnu? Efallai y dymunwch gyflwyno patrwm os oes gennych ddail o wahanol liwiau neu arlliw.

Bydd y plant yn defnyddio mwrthwl a hoelion i greu eu nadroedd dail eu hunain. Dangoswch iddynt sut i forthwyllo hoelen i ddarn o bren. Cofiwch ddangos a dweud wrthynt am ddechrau drwy daro'r hoelen yn ysgafn pan fyddant yn dal yr hoelen yn ei lle. Yna, pan allant symud eu llaw ymaith a'r hoelen yn sefyll ar ei phen ei hun, gallent ei tharo'n gryfach gyda'r mwrthwl. Bydd digon o gyfle i'r plant ymarfer a defnyddio eu sgiliau llawdriniol manwl wrth daro'r hoelion. Anogwch nhw i gyfrif hyd eu neidr ddail / lindys. A allant gasglu'r nifer cywir o hoelion a dail ar gyfer ei neidr ddail? Pa rif fyddant yn ei ddewis? Darparwch gardiau rhif neu gardiau brawddegau rhif gan gasglu a chyfrif y nifer cywir o ddail a hoelion. Gallent ddefnyddio llygaid wigli neu sticeri llygaid fel bod pen y neidr yn dod yn fyw.

Mae sgiliau mathemategol yn cael eu datblygu yn ystod y weithgaredd wrth i'r ymarferwyr hwyluso'r dysgu drwy gwestiynu a thrafod gyda'r plant.

Mae posib datblygu nifer o sgiliau mathemategol yn ystod y weithgaredd e.e.

- Gosod rhifau mewn trefn ddilynol. Allan nhw roi'r rhifau wrth ymyl eu dail yn y drefn gywir?)
- Cyfrif (cyfrif y dail, sawl tro mae'r mwrthwl yn taro, hoelion)
- Cyfateb rhif i faint sydd eu hangen
- Patrwm
- Casglu, dosbarthu a gosod mewn trefn (faint o rannau, pwyntiau, gwythiennau gwahanol sydd ar y ddeilen, siapiau a mathau gwahanol o ddail)
- Siop Ddail a Hoelion (cyflwyno arian, talu am ddail, rhoi newid)
- Adio, tynnu gan ddefnyddio nadroedd dail (Beth fydd hyd eich neidr ddail os ydych yn ychwanegu 3 arall?.. Os ydych yn tynnu 4, beth fydd hyd eich neidr ddail? Faint o ddail fydd hyd y neidr os ydych yn gosod eich neidr chi a neidr eich ffrind gyda'i gilydd? Allwch chi greu neidr sydd ddwywaith maint un eich ffrind?)

Rydym wedi ffocysu yn bennaf ar ddatblygiad mathemategol yn y fideo yma, ond mae cymaint o sgiliau eraill y mae posib eu datblygu ar draws y meysydd dysgu.